Cyngor Cymuned Pentir

# Cofnodion Cyngor Llawn Nos Iau 13eg o Fawrth 2025
# Yn Canolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00

1. **Presennol: /Present**

   Cyng I Ellis Cadeirydd Cyng C W Owen (IsGadeirydd) Cyng L A James; Cyng J Griffiths; Cyng E Roberts; Cyng B. Jones; Cyng A Joyce; Cyng George Owen; **C**yng D Jones-Morris; Cyng J Pierce: Cyfieithydd Sioned Jones a'r Clerc

2. **Ymddiheuriadau: Apologies**

   Cyng Cyng Megan Jones a'r Cyng Jên Dafydd oedd hefyd wedi anfon llythyr ymddiswyddiad gan ei bod yn ymwybodol nad oedd wedi gallu mynychu unrhyw gyfarfod ers ei chyfethol ag yn teimlo nad oedd hynny yn deg a thrigolion.
   Derbynwyd ei ymddiswyddiad
   Bydd y Clerc yn dilyn y camau priodol i hysbysebu ei sedd fel sedd wag achlysurol ar ward Glasinfryn

3. **Croeso / Welcome**

   Croesawodd y Cadierydd bawb oedd yn bresennol cyn ymddiheuro nad oedd ein gwr gwadd Iwan Ap Trefor yn mynychu heno ond am geisio mynychu ein cyfarfod yn Mis Ebrill
   **G**an fod yr A S Claire Hughes wedi derbyn gwahoddiad i fynychu ein cyfarfod ar 13eg o Ebrill ond fod trafnidiaeth Ffordd Penrhos hefyd yn flaenoriaeth cytunwyd gwahodd Iwan atom ar gychwyn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid ar y 26ain o Fawrth ag i hefyd ymestyn y gwahodd i weddill aelodau
   Ychwanegodd Cyng A Joyce na fyddai bosib iddo fynychu ar Nos Fercher ond byddai ganddo ddiddordeb i wybod os oes unrhyw un yn monitro y llwybr o ran defnydd ac yn wir ddim defnydd gan feicwyr
   **Cytunwyd ar hynny ag y byddai'r Cadeirydd yn cysylltu ag Iwan**

4. **Datgan buddiant / Declaration of interest**

   Cyng L A James a Cyng A Joyce yn datgan eu bod yn ymddiriedaolwyr Canolfan Penrhos Cyng J Griffiths yn datgan cyswllt a Grwp arlunio fel aelod a perthynas ar bwyllgor Canolfan Glasinfryn Cyng J Pierce yn datgan ei bod yn aelod o Cylch Merched Glasinfryn

5. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 13eg o Chwefrod / February 2025**

   Diolchwyd i'r Cyng C W Owen am gadw'r cofnodion yn absennoldeb y Clerc Derbynwyd fel cofnod cywir gan Cyng E Roberts gafodd ei eilio gan y Cyng J Pierce

6. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**

   **Cae Caerhun** – dal dim ymateb o Gwynedd ag o bosib mi allwn godi y mater yma rwan hefo yr A S yn mis Ebrill yn ogystal a'r pryderon lleol sydd ynglyn a'r Llwybr Llesiant
   **Cytunwyd os oedd gan rhywun gwestiwn penodol ar unrhyw fater mae da o beth fyddai eu anfon i'r Clerc mor fuan a phosib fel y gallai'r Aelod Seneddol edrych i mewn i'r cefndir ag efallai gael ymateb ar gyfer ein cyfarfod ni**

7 Materion ariannol / Financial Issues

i. **Mantolen ariannol / Financial report**

'Roedd mantolen ariannol o fewn y pecyn ddosbarthwyd yn dangos £20,319.25c yn y cyfrif cyfredol a £41,578.94c yn y cyfrif cadw.

ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 26/02/2025**

4 cais am nawdd wedi ei derbyn Gan Grwp arlunio Glasinfryn – Grwp Ioga Glasinfryn Cylch merched Glasinfryn a Chanolfan Glasinfryn oedd yn gofyn am gymorth ariannol i osod 'loop' ar gyfer rhaid oedd a nam clyw ganddynt **P Cyllid yn argymell £300 yr un i'r 3 cais cyntaf ar argymhelliad yn cael ei dderbyn.**

**Pwyllgor Cyllid wedi ystyried y cais am y loop gan y ganolfan yn wahanol gan mae eiddo y** Cyngor ydi'r Ganolfan a felly cyfrifoldeb y Cyngor i'w sicrhau bod offer priodol ar gyfer defnyddwyr **Yr argymhelliad i'r Cyngor Llawn oedd bod y Cyngor yn talu am yr offer loop yn enw'r Cyngor**

Argymhelliad yn cael ei dderbyn

iii. **Polisia** - Gofrestr Risg yn cael ei addasu i gynnwys Goleuadau Nadolig
Gofrestr asedau wedi ei addasu i gynnwys y Goleuadau ond canolfan Glasinfryn sydd erioed wedi ei chynnwys angen bod ar y cofrestr ag angen ei phrisio **Clerc i drefnu prisiwr**

**8 Cynllunio / Planning**

C25/0158/25/LL Lleoliad: Tan Y Grisiau, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57 4YB
Bwriad: Dymchwel bwthyn deulawr presennol ac adeiladu annedd deulawr yn ei le.
Dymchwel adeilad allanol adfeiliedig ar gyfer adeiladu adeilad allanol newydd at ddefnydd ategol i'r annedd.

**Sylw fwy na gwrthwynebiad**

Tra nad oedd y cais o bosib yn torri unrhyw bolisi Cynllunio teimlwyd oherwydd ei leoliad ei ddyluniad ac o'i hanes y dylia aneddau fel hyn gael eu gwarchod **–**

**Clerc i anfon at yr Adran Gynllumio**

**9 Materion y Clerc / Topics from the Clerk**

- **F O I** Y mater yma yn parhau o ochr y Swyddfa ICO
- **Capel y Fynwent** Gwaith y llawr yn Cychwyn wythnos 17 o Fawrth
- **Traelia Cynghorwyr** Wrth drafod Traelia Cynghorwyr Cynnigiodd y Cyng D

Jones-Morris bod y Cyngor y manteisio ar y ffaith y gall cynghorau cymuned dalu hyd at 3 aelod am gyfrifoldeb ychwanegol fel Cadeiryddion ac yn y blaen

Yn sgil hynny cynnigiodd fod Cyngor Pentir yn talu Traelia uwch i'r Cadeirydd Ieuan Ellis a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid Cyng Lowri Ann James. Oherwydd y swp ychwanegol o waith mae'r ddau wedi ei wneud dros y flwyddyn 2024-25

Cafodd y cynnig ei eilio gan y Cyng J Pierce – **Trafodwyd ymhellach y swm a chytunwyd bod y ddau yn derbyn £500 yr un**

Cyflwynwyd siec am eu traelia ag offer i'r 8 oedd bresennol ag **arwyddodd pawb ffurflen yn cadarnhau eu bod yn gweithio fel Cynghorydd o gartref a felly nad yw eu tal yn drethadwy**

**Clerc i drefnu cyflwyno y Cadeiryddion hefo siec**

- **Sedd Wag arall** Clerc i drefnu hysbysebu y cyhoedd bod sedd wag achlysurol ar Ward Glasinfryn
- **Diweddariad Ganolfan / Ysgol y Faenol**

- Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno dan materion Cynghorwyr

**10 Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics**

**Cyng I Ellis** **Diweddariad, os bydd un, oddiwrth yr archwilwyr allannol**

**Dim ymateb wedi ei dderbyn**

**Canolfan Penrhosgarnedd**

Rhanwyd rhwng 2 drafft copia o'r pen-telerau oedd wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd oedd yn addasiad o'r drafft gwreiddiol oedd wedi eu derbyn ynghyd a chynllun o'r safle oedd hefyd wedi ei addasu

Derbynwyd sylwadau ynglyn a rhai anghysonderau oedd yn weddol amlwg

Nodwyd y sylwadau a bydd rhain yn cael eu anfon yn ol at adran eiddo Cyngor Gwynedd ar gyfer dod at ddrafft terfynnol fyddai wedyn yn cael eu ystyried/trafod gan ein cyfreithwyr ag adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd

Mae'r amserlen yn eitha tyn gan y bydd angen dymchwel y Ganolfan bresennol a chreu y maes parcio newydd ar gyfer yr Ysgol a'r Ganolfan Newydd ar gyfer tymor yr Hydref

Cyn hynny bydd angen trafod gyda'r Pwyllgor Rheoli a'r defnyddwyr presennol gan y bydd angen clirio popeth allan yn ogystal a setlo unrhyw ddyledion am wasanaethau fel nwy a trydan

Derbynwyd y copiau drafft yn ol gan ar y funud eu bod yn ddrafft cyfrinachol rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Pentir

**Cyng D Jones Morris** Addasiadau traffig Ffordd Penrhos a Ffordd Menai

'Roedd y Cynghorydd yn awyddus iawn i drafod rhai materion hefo'r Swyddog Trafnidiaeth ar gychwyn y cyfarfod gan fod gryn afodlonrwydd yn lleol ynglyn a nid yn unig y Llwybr Llesiant ond hefyd Ffordd Menai y Gylchfan wrth Ysbyty Gwynedd fydd o bosib yn ychwanegu at y broblem parcio sy'n bodoli yn barod ledled yr ardal

**Mi fydd cyfle i darfod rhain hefo'r Swyddog ddiwedd y mis yn y Pwyllgor Cyllid**

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.05